SWYDDFA'R POST

Annwyl Gwsmer

**<u>Cau'r Gangen Dros Dro</u>**

**Swyddfa Bost Brynithel**
**Teras Brynithel, Abertyleri NP13 2HE**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod y bydd y gangen uchod, yn anffodus, yn cau dros dro ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022 am 17:30 am fod y postfeistr yn ymddiswyddo ac am na fydd yr adeilad ar gael wedyn i'w ddefnyddio'n Swyddfa Bost.

Mae darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol yn bwysig i ni, a byddwn yn dal i weithio'n galed i adfer gwasanaethau yn yr ardal cyn gynted â phosibl. Byddem yn croesawu unrhyw geisiadau gan berchnogion siop a fyddai â diddordeb mewn rhedeg cangen yn lleol ar ein rhan. Mae'r swydd wag yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ar ein gwefan www.runapostoffice.co.uk a rhoddir ystyriaeth ofalus i bob cais. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un a fyddai â diddordeb, byddwch cystal a rhannu'r ddolen â nhw.

Hoffwn eich sicrhau ein bod wrthi'n ystyried y dewisiadau a fydd yn ein galluogi i adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig gwneud yn siŵr y bydd unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy i'r sawl a fydd yn ei redeg, ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Bydd unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn adlewyrchu nifer y cwsmeriaid a'r defnydd o'r Swyddfa Bost, ac mae'n bosibl y byddwn yn sefydlu math gwahanol o wasanaeth. Gall hyn olygu cangen leol ei natur sy'n cael ei rhedeg ochr yn ochr â siop sy'n bodoli eisoes mewn adeilad wedi ei adnewyddu, er mwyn cynnig profiad siopa mwy modern a hwylus i gwsmeriaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi'n "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid.

Byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylustod a allai ddigwydd oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn.  Oherwydd Covid-19, gall y bydd oriau agor y canghennau'n amrywio. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennym unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

*Katimay John*

**Katimay John**
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk.
postofficeviews.co.uk.
FREEPOST Your Comments

**Canghennau eraill**

**Yn ystod y pandemig Coronafeirws mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor rhai canghennau. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**Gwasanaeth Symudol Llanhiledd**
Maes Parcio Sefydliad y Glowyr Llanhiledd
Llanhiledd
Abertyleri
NP13 2JT

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher: | 10:10 – 13:10 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua milltir o gangen Brynithel, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

---

**Swyddfa Bost Abertyleri**
1 Pont y Ffowndri
Abertyleri
NP13 1BX

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun - Gwener | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Sadwrn | 09:00 – 15:00 |
| Dydd Sul | Ar gau |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio, Gwirio ac Anfon Pasbort, Treth Cerbyd, Yswiriant Teithio Ar Gais a'r Loteri Genedlaethol.

**Mynediad**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 2.4 milltir o gangen Brynithel, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

---

**Swyddfa Bost Swffryd**
3-4 Rhodfa Walters
Crymlyn
Casnewydd
NP11 5HT

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun – Sadwrn | 07:30 – 20:00 |
| Dydd Sul | 08:30 – 20:00 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ond nid Arian Teithio mewn Ewros.

**Mynediad**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a ramp â chanllawiau wrth y fynedfa.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 2.5 milltir o gangen Brynithel, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

---

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**<u>Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

*Byddwn yn* ***<u>Hysbysu</u>*** *– pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau agor y Swyddfa Bost
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk.**
**Comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i

rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.